Councillor/Cynghorydd Aaron Shotton,
Arweinydd Cyngor Sir Y Fflint
Leader, Flintshire County Council
County Hall, Mold CH7 6NB
Neuadd Y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NB

Ein cyf / Our ref:
Dyddiad/Date: 25 Mawrth 2019
Rhif union/Direct dial: 01352 702105
Ebost/Email: aaron.shotton@flintshire.gov.uk

**Nigel Adams AS**
Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru
1 Caspian Point
Caerdydd
CF10 4DQ

Annwyl Nigel,

**Cynllun Twf Gogledd Cymru**

Diolch am fynychu cyfarfod o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 1 Chwefror, ac am eich llythyr wedi hynny.

Mae'r Bwrdd yn awyddus i symud yn gyflym ac yn benderfynol i gyflawni Cytundeb Penawdau'r Telerau ddim hwyrach na mis Gorffennaf. Rydym wedi cynnal dau gyfarfod Bwrdd yn agos at ei gilydd er mwyn cwblhau ein Cynllun Gweithredu ar gyfer y Cynllun Twf ers i ni gyfarfod. Mae swyddogion y ddwy Lywodraeth wedi gwneud cais am Gynllun Gweithredu pwrpasol a chyflawnadwy, a bellach rydym yn medru cyflwyno Cynllun o'r fath. Mae'r Cynllun Gweithredu ynghlwm.

Yn ein cyfarfod Bwrdd diweddaraf a gynhaliwyd ar 15 Mawrth, fe wnaethom gadarnhau'r Cynllun Gweithredu hwn gyda chefnogaeth unfrydol yr holl bartneriaid. Drwy gyfres o sesiynau cyn cyfarfod yr wythnos ddiwethaf, rydym wedi cael mewnbwn dwys gan arweinwyr busnes o'r holl sectorau allweddol.

Mae'r Cynllun Gweithredu wedi derbyn hyder y gymuned fusnes. Yn ogystal, mae swyddogion y Llywodraeth wedi cyfrannu at ddatblygu'r Cynllun dros gyfnod o amser.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi:-

- yr uchelgais strategol ar gyfer y Cynllun Twf;
- y gyfres o raglenni a'r ymyraethau prosiect ar gyfer y tri sector pennaf a'r pedwar hwylusydd;
- crynodeb o'r achos busnes amlinellol ar gyfer pob prosiect yn cynnwys eu deilliannau a'u buddion, eu proffil ariannol, a manylion buddsoddiad uniongyrchol ac anuniongyrchol y sector preifat a chyhoeddus;
- amserlen ddangosol; a

- rhyng-ddibyniaethau'r rhaglenni a'r prosiectau.

Yn ogystal, mae'r Cynllun yn nodi:-
- rôl, swyddogaethau a threfniadau llywodraethu'r Bwrdd Uchelgais Economaidd;
- rôl a chyfraniad parhaus y sector preifat;
- trefniadau ar gyfer cyfathrebu gyda rhanddeiliaid;
- rheoli gweithredu rhaglenni; a
- threfniadau monitro a gwerthuso.

Mae mewnbwn y sector preifat i ddatblygu'r Cynllun wedi bod yn sylweddol. Mae hyn wedi'i gydlynu gan Fwrdd Cyflawni Busnes Gogledd Cymru sydd newydd ei sefydlu. Mae disgwyliadau uchel i weld y Cynllun yn cael ei gyflawni o 2020/21 gyda chefnogaeth gref i ehangu rhaglenni a phrosiectau, lle bo hynny'n bosib gyda buddsoddiad anuniongyrchol a chyfalaf ychwanegol, i gyflawni newid trawsffurfiol ar raddfa ranbarthol.

Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo cam cyntaf yr adnoddau i adeiladu capasiti rhanbarthol yn barod ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau 'byw' a ariennir drwy'r Cynllun Twf o 2020/21. Mae cael cytundeb gan y Llywodraethau ynghylch Penawdau'r Telerau ddim hwyrach na mis Gorffennaf yn hanfodol os ydym am fod yn barod ar amser i gyflawni'r disgwyliadau yr ydym oll wedi'u codi ledled y rhanbarth.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod rhai prosiectau ar ein rhestr arfaethedig o bedwar ar ddeg prosiect ymyrraeth ar y blaen i rai eraill yn nhermau pa mor barod ydynt. Felly, rydym yn cynnig cynnwys bob un o'r pedwar ar ddeg prosiect o fewn ystod y Penawdau'r Telerau ond dim ond cynnwys y rhai sy'n fwy parod yn y cam cyntaf hwn. Byddai'r rhai yn y cam cyntaf yn symud ymlaen ar unwaith i'r model busnes pum achos. Byddai'r prosiectau sy'n weddill yn cael eu datblygu ymhellach mewn ail gam i ddilyn yn fuan wedyn. Er eglurder, gyda 'pharod' rydym yn golygu bodloni profion (a) prawf cysyniadol (b) deilliannau ac effaith (c) buddsoddiad a buddsoddiad anuniongyrchol y sector preifat a (d) parodrwydd i gyflawni ar amser.

Mae'r prosiectau sydd wedi'u cefnogi gan y Bwrdd i fod yn y cam cyntaf, gan eu bod yn ddigon parod, yn cynnwys:-
- Prosiect Cysylltedd Digidol
- Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol
- Porth Caergybi
- Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar
- Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd

Nid yw hon yn rhestr gyflawn ac fe'i darperir fel canllaw ar gyfer negodi'n gyflym. Mae'r gyfres lawn o Achosion Busnes Amlinellol wedi'u cyflenwi i swyddogion.

Ar hyn o bryd, nid oes sgôp ariannol ar gyfer ychwanegu prosiectau newydd i'r Cynllun Twf. Rydym yn agored iawn i ychwanegiadau diweddarach gyda buddsoddiad cyfalaf ychwanegol gan y Llywodraethau.

O ystyried effaith y penderfyniad gan Hitachi i atal prosiect Wylfa Newydd, mae'r Cynllun:-

- yn cadarnhau'r gefnogaeth i brosiectau allweddol y Cynllun Twf o fewn portffolio a gaiff effaith economaidd a chyflogaeth uniongyrchol ar Ogledd Môn - Prosiect Porth Caergybi, Prosiect Morlais a'r Prosiect Canolfan Ragoriaeth Niwclear;
- yn ehangu dau brosiect Cynllun Twf strategol a gaiff effaith ar economi Gogledd Môn a chreu'r amodau ar gyfer twf cyflogaeth - y Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar a'r Gyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol; ac
- yn sicrhau y bydd trefn prosiectau'r Cynllun Twf yn blaenoriaethu'r ymyraethau hynny sy'n effeithio ar Ogledd Môn.

Gwahoddwn y ddwy Lywodraeth i amlinellu proses glir a syml ar gyfer cwblhau trafodaethau i gyrraedd Cytundeb Penawdau'r Telerau erbyn mis Gorffennaf. Rydym yn bwriadu cyhoeddi gohebiaeth gyhoeddus ddechrau Ebrill - gan wneud datganiad cadarnhaol bod y rhanbarth yn barod i gwblhau Cytundeb a dechrau gweithredu prosiectau blaenoriaeth o 2020/21. Byddem yn croesawu datganiad cadarnhaol o gefnogaeth gan y ddwy Lywodraeth.

Rydym yn ysgrifennu at y Gweinidog Ken Skates AC gyda gwahoddiad tebyg.

Edrychwn ymlaen yn fawr at dderbyn eich cefnogaeth i'r dull gweithredu a amlinellir uchod.

Yr eiddoch yn gywir

**Y Cynghorydd Aaron Shotton,**
**Cadeirydd, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac Arweinydd Cyngor Sir y Fflint**

**Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn,**
**Is-gadeirydd, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac Arweinydd Cyngor Gwynedd**

Amg.